



THE MILLENNIUM STADIUM  
CHARITABLE TRUST  
YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL  
STADIWM Y MILENIWM

## FFURFLEN GAIS AM GRANT YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL STADIWM Y MILENIWM

Cyn llenwi'r ffurflen hon, darllenwch y canllawiau amgaeedig, ac yn arbennig yr adran 'Sut mae Ymgeisio', yn ofalus. Llenwch hi mewn teip neu inc du. Cysylltwch â Swyddfa'r Ymddiriedolaeth i drafod unrhyw ran o'r cais.

### ADRAN UN – Gwybodaeth Gyffredinol

#### C1 Enw'ch Sefydliad

Sylwch: Dylai enw'ch sefydliad fod yr un un â'r enw ar eich cyfansoddiad.

Mentrau Iaith Cymru

#### C2 Enw Cydlynnydd y Cais

Sylwch: Enwch y sawl a fydd yn rheoli'r prosiect ac y gellir cysylltu ag ef/hi i drafod manylion y prosiect. Os bydd y wybodaeth hon yn newid yn ystod eich prosiect, byddwn yn disgwyl i chi roi gwybod i swyddfa'r Ymddiriedolaeth.

Emily Cole

#### C3 Cyfeiriad

Sylwch: Dyma'r cyfeiriad yr anfonir pob gohebiaeth iddo. Cynhwyswch y cod post. Os bydd y cyfeiriad yn newid yn ystod eich prosiect, byddwn ni'n disgwyl i chi roi gwybod i swyddfa'r Ymddiriedolaeth.

Y Sgwâr, Llanrwst, LL26 0LG

#### C4 Tiriogaeth yr Awdurdod Lleol

Sylwch: Rhowch enw tiriogaeth eich awdurdod lleol. Os yw'ch prosiect yn ymwneud â thiriogaeth mwy nag un awdurdod, enwch bob awdurdod lleol perthnasol, neu dywedwch 'Cymru gyfan' os yw'ch prosiect yn cynnwys tiriogaeth pob un o'r 22 o awdurdodau lleol.

Sir Conwy, Gwynedd, Powys, Ceredigion, Caerfyrddin

#### C5 Rhif Ffôn

01443 493715

#### C6 Rhif Ffacs

#### C7 E-bost

post@mentrauiath.org

#### C8 Ble y clywsoch chi am Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm?

Trwy un o'r Mentrau Iaith

#### C9 A yw hon eich cais gyntaf i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm?

Sylwch: Os yr ydych wedi ceisio ô'r blaen, nodwch y dyddiad a'r canlyniad.

Rydym wedi gwneud dau gais i'r ymddiriedolaeth yn y gorffennol:

25/9/06 ddim yn llwyddiannus

10/7/07 llwyddiannus

#### Canolwr

Sylwch: Rhowch fanylion canolwr a fyddai'n barod i gefnogi'ch cais. Sylwch fod rhaid iddo/iddi fod yn rhywun nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â chi na'ch sefydliad.

#### C10 Enw'r Canolwr

Dewi Pws Morris

#### C11 Galwedigaeth y Canolwr

Perfformiwr

#### C12 Cyfeiriad

<i>Sylwch: Dyma'r cyfeiriad y caiff pob gohebiaeth i'ch canolwr ei anfon iddo. Cynhwyswch y cod post.</i>	
Frondirion, Tresaith, Aberteifi, Ceredigion SA4 2JL	
<b>C13 Rhif Ffôn y Canolwr</b>	07989 383137

**ADRAN DAU – Cais yr Ymgeisydd**

**C14 Categori'r Cais**  
**Marciwch â chroes y categori sy'n gymwys i'ch sefydliad chi**  
*Sylwch: Cewch eglurhad o'r categorïau yn y canllawiau – 'Faint Sydd ar Gael'.  
Os oes amheuaeth, cysylltwch â Swyddfa'r Ymddiriedolaeth.*

Cenedlaethol (hyd at £12,500)

Rhanbarthol (hyd at £7,500)

Lleol (hyd at £2,500)

**C15 Y Math o Brosiect**  
**Marciwch â chroes y categori sy'n gymwys i'ch prosiect chi.**  
**Cewch ddewis mwy nag un categori.**  
*Sylwch: Cewch eglurhad o'r categorïau yn y canllawiau – 'Y Categorïau'.  
Os oes amheuaeth, cysylltwch â Swyddfa'r Ymddiriedolaeth.*

Chwaraeon

Y Celfyddydau

Y Gymuned

Yr Amgylchedd

**C16 Cefndir eich sefydliad**  
**Disgrifiwch gefndir eich sefydliad.**  
*Sylwch: Dylech gynnwys gwybodaeth sy'n dweud ers pryd y mae'ch sefydliad yn bod, faint o aelodau a all fod gennych, a beth yw prif amcanion eich sefydliad.*

Sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru yn 1999 gan wirfoddolwyr ar ol adnabod angen i rannu arfer da rhwng y Mentrau Iaith lleol. Mae ein gweithgareddau yn cael eu rheoli a'u llywio gan ein haelodau, sef gwirfoddolwyr a staff y 23 Menter Iaith ar draws Cymru.

Rydau ni yn cefnogi a hybu defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau a chefnogi gweithgareddau'r Mentrau Iaith lleol sydd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar lawr gwlad. Rydym yn gwneud hyn trwy amrywiaeth o weithgareddau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys cymorth i ddatblygu gweithgareddau ar y cyd â grwpiau cymunedol er mwyn hybu'r Gymraeg a'r defnydd ohoni gan bobl o bob oedran a chefnidir.

Yn uniongyrchol, mae gan MIC 30 o wirfoddolwyr, ond mae ein gwaith yn cefnogi cyfleoedd i dros 1000 o wirfoddolwyr i gyd.

(Mae'n rhaid cadw at uchafswm o 150 o eiriau wrth ateb y cwestiwn hwn)

**C17 Beth yw enw'ch prosiect?**  
*Sylwch: Dylai teitl eich prosiect adlewyrchu'r hyn y bydd eich prosiect yn ceisio'i wneud*

Ras yr Iaith 2016

<b>C18 Dyddiad Cychwyn: Beth fydd dyddiad cychwyn y prosiect hwn?</b>	Rhagfyr 2015
<b>C19 Dyddiad Gorffen Ar ba ddyddiad y daw'ch prosiect i ben?</b>	Awst 2016
<b>C20 Disgrifiad o'r Prosiect Disgrifiwch y prosiect y mae angen ei ariannu</b>	
<p>Yn dilyn gweithgaredd llwyddiannus yn 2014, rydym eisiau adeiladu ar y llwyddiant hwnw drwy ddatblygu ein cynnig i gyrraedd mwy o bobol a chael effaith cadarnhaol ar mwy o gymunedau.</p> <p>Mae'r prosiect Ras yr Iaith yn anelu i ddod a cymunedau at eu gilydd i werthfawrogi ein diwylliant a iaith Gymraeg, gyda ffocws ar gweithgaredd sydd yn annog pobl i fyw bywyd iach drwy ymarfer corff.</p> <p>Mae'r prosiect Ras yr Iaith yn cynnwys ras hwyl yn seiliedig ar rasmus yng Ngwlad y Basg, Llydaw ac Iwerddon. Yn y peilot yn 2014 symudodd y ras drwy naw tref yn Siroedd Ceredigion a Caerfyrddin. Mae'r ras ar ffurf ras gyfnewid, mae "baton" sydd yn cario neges o ewyllus da, yn cael ei gario o amgylch trefi a phentrefi ac yn cael ei basio o un person i'r llall fel symbol pwerus o undod ein cymunedau dros ein diwylliant a'r iaith Gymraeg.</p> <p>Rhedodd 1,000 o grwpiau cymunedol neu unigolion un kilometer yr un, 150 o stiwardiaid gwirfoddol, dros ddwy fil yn cefnogi a noddwyd 117 Km gan grwpiau lleol, busnesau a unigolion. Bu dros tair mil o bobol gymryd rhan yn y prosiect peilot, gydag adborth hynod o bositif, ac yn datgan y byddan nhw yn awyddus i gymryd rhan eto.</p> <p>Yn sgil yr adborth positif, rydym yn awyddus i symud ymlaen i'r cam nesaf o ddatblygu, sef creu strwythr cryfach i fedru cynnal y gweithgaredd am y deg mlynedd nesaf.</p> <p>Mae'r ras hwyl yn cael ei drefnu gyda gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol, a arweinir gan Mentrau Iaith Cymru a'r Mentrau Iaith lleol. Bydd y ras yn cael ei chynnal ym mis Gorffennaf 2016, dros 3 diwrnod, ac yn dechrau yn Sir Conwy, cyn mynd ymlaen i Wynedd, Powys, Sir Ceredigion a Sir Gaerfyrddin gyda'r bwriad o edrych ar leoliadau eraill yn y dyfodol.</p> <p>Ymhob tref ac ardal bydd pwyllgorau gwirfoddol yn cael eu sefydlu gydag unigolion a grwpiau o unrhyw gefndir, cred, anabledd, hil neu rywioldeb yn cael eu hannog i ymuno.</p> <p>Os yn llwyddianus byddai'r arian a dderbynnir yn ein galluogi i sefydlu ac ehangu'r rhwydweithiau gwirfoddol yma.</p> <p>(Mae'n rhaid cadw at uchafswm o 350 o eiriau wrth ateb y cwestiwn hwn)</p>	
<b>C21 Disgrifiwch sut y bydd y prosiect yn ceisio gwella ansawdd bywyd y bobl y mae'ch sefydliad yn eu gwasanaethu.</b>	
<i>Sylwch: Dylech ystyried sut y byddai'r prosiect yn helpu i oresgyn unrhyw broblemau y mae'ch sefydliad wedi'u nodi.</i>	
<p>Bydd y cynllun yn gwella ansawdd bywyd unigolion mewn cymunedau ar draws y 5 Sir trwy fynd i'r afael â phroblemau a rhwystrau amrywiol, a hynny mewn modd positif a gweithredol, gan harneisio egni a grym gweithgarwch gwirfoddol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd y prosiect yn cryfhau'r cymunedau sydd ar lwybr y ras drwy ddod â phobl at ei gilydd a chreu incwm mewn trefi a phentrefi. Bydd ymdeimlad cryfach o gymuned a chydweithredu wedi cael eu datblygu mewn pentrefi a threfi a rhwng pentrefi a threfi. Bydd y prosiect hefyd yn darparu cyfleoedd newydd i bobl wirfoddoli a chydweithio er lles eu cymuendau lleol trwy ffurfio pwyllgorau i gynllunio ymweliad y Ras i'w hardal.</li> <li>2. Bydd y prosiect yn gwella lles a ffitrwydd pobl drwy gael miloedd o bobl i redeg neu gerdded o leiaf 1 km fel rhan o'r ras. Bydd canllawiau a chynlluniau hyfforddi ar sut i godi ffitrwydd fel paratoadau i'r ras yn cael ei rannu ar y wefan a fforwm hyfforddi penodol yn cael ei hwyluso gan redwr profiadol yn cael ei greu ar wefanau cymdeithasol.</li> </ol>	

3. Bydd y prosiect yn cryfhau sgiliau ieithyddol trwy ddod a siaradwyr Cymraeg cynhenid, dysgwyr a chefnogwyr yr iaith efallai nad ydynt yn ei siarad i gydweithio. Bydd pobl yn dysgu Cymraeg wedi cael cyfle bywiog a chyffrous i ymarfer a gwella eu Cymraeg. Bydd pobl o wahanol gefndiroedd, oedrannau a diddordebau wedi cael y cyfle i redeg, trefnu a mwynhau diwylliant Cymraeg gyda'i gilydd.

Amcanion tymor hir y cynllun:

Y nod yw cynnal gweithgaredd yn cynnwys ras bob dwy flynedd gyda'r llwybr yn ehangu rywfaint bob tro.

Helpu dysgwyr Cymraeg i wella eu sgiliau iaith yn rhan o ddiwylliant iaith Gymraeg.

Bod ymdeimlad cryfach o gymuned wedi ei greu yn y pentrefi a threfi ar hyd y llwybr.

Bod mwy o bobl wedi gwella eu ffitrwydd trwy baratoi a chymryd rhan yn y prosiect.

Trwy annog grwpiau, mudiadau ac unigolion i noddi cilomedrau'r Ras yn eu hardaloedd rydym yn bwriadu gwneud y prosiect yn fwy hunangynhaliol trwy godi arian.

(Mae'n rhaid cadw at uchafswm o 350 o eiriau wrth ateb y cwestiwn hwn)

### **C22 Sut y caiff eich prosiect ei reoli?**

*Sylwch: Dylech gynnwys manylion y sawl sy'n mynd i reoli'r prosiect, a pha ystyriaeth a roir i ddiogelwch y rhai a fydd yn cymryd rhan ynddo ac i warchod plant neu bobl iau.*

Fel mudiad sydd wedi bodoli ers 17 mlynedd rydym yn fudiad aeddfed, gyda strwythurau cadarn i reoli arian, adnoddau a phrosiectau yn llwyddiannus. Wrth gynllunio'r prosiect byddwn yn adnabod nodau ac amcanion clir, a gosod targedau pendant er mwyn i ni fedru mesur yn erbyn rhain i sicrhau llwyddiant.

Bydd y prosiect yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan Reolwr Prosiect profiadol o fewn y mudiad. Mae ein Pwyllgor Gweithredol hefyd yn cymryd gorolwg manwl dros ein gweithgareddau ac yn cynnwys unigolion â phrofiad ac arbenigedd rheolaeth a rheoli prosiectau.

Mae ein holl prosiectau a gweithgareddau yn cael eu rheoli mewn modd sydd yn ystyried, a chynllunio ar gyfer materion iechyd a diogelwch ac rydym hefyd â phrofiad helaeth o weithio gyda phlant a phobl ifanc, gan sicrhau bod prosesau ammdiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion bregus wrth wraidd ein gweithgareddau. Bydd ystyriaethau Iechyd a Diogelwch yn flaenoriaeth pendant felly wrth drefnu'r ras, bydd partneriaethau a sefydlwyd ar gyfer ras 2014 gyda Cyngorau Sir a'r Heddlu yn cael eu ail sefydlu er mwyn cynllunio digwyddiadau diogel i bawb sydd yn cymryd rhan.

(Mae'n rhaid cadw at uchafswm o 200 o eiriau wrth ateb y cwestiwn hwn)

### **C23 Beth fydd cost eich prosiect?**

**£45,350**

### **C24 Faint yr ydych chi'n gofyn i'r Ymddiriedolaeth amdano?**

**£ 7,500**

### **C25 Os yw'r swm yr ydych yn gofyn amdano yn llai na chyfanswm cost eich prosiect, sut yr ydych chi'n gobeithio ariannu gweddill y costau?**

Rydym wedi sicrhau cefnogaeth gan y 7 Menter Iaith sydd yn gweithredu yn yr ardaloedd lle fydd y Ras yn digwydd. Rydym yn amcan fod y gefnogaeth hon cyfwerth â £4,200 gan fod y Mentrau yn rhoi amser ac arbenigedd swyddogion i gefnogi'r prosiect ac i helpu cydlynu gweithgarwch i gynnal y gweithgareddau.

Byddwn hefyd yn defnyddio yr un dulliau i ddenu gwirfoddolwyr ar gyfer y gweithgareddau, sydd â gwerth ariannol o £24,150 gan bobol o'r gymuned tuag at y prosiect.

Rydym hefyd yn bwriadu gwneud ceisiadau am gyllid gan Gyngorau Cymuned a Chyngorau Tref lleol er mwyn codi gweddill yr arian.

(Mae'n rhaid cadw at uchafswm o 100 o eiriau wrth ateb y cwestiwn hwn)

### C26 Rhowch ddadansoddiad o'r costau yr ydych yn gofyn i'r Ymddiriedolaeth amdanynt

Eitem	Y Swm sy'n Ofynnol
Marchnata	£800
Sesiynnau hyfforddiant, costau, offer a nwyddau gwirfoddolwyr	£3200
Cydlynnydd prosiect	£3500

**CYFANSWM** **£7,500**

### C27 Rhestrwch unrhyw gyrff ariannu eraill y cysylltwyd â hwy i ariannu'r prosiect hwn, a nodwch statws unrhyw gais ar hyn o bryd.

Corff ariannu	Swm	A Ddyfarnwyd Grant? / Y Dyddiad y Penderfynir?
Cyngorau Tref x 15	<b>£ 1,500</b>	heb gadarnhau
Amser gwirfoddolwyr a Mentrau Iaith @ £7/awr	<b>£28,350</b>	wedi cadarnhau
Noddi'r ras	<b>£6,500</b>	heb gadarnhau
Gwerthiant nwyddau	<b>£1500</b>	heb gadarnhau
	<b>£</b>	

**C28 Faint o bobl fydd yn elwa o'r prosiect?** 4300

### C29 Disgrifiwch y math o bobl a wnaiff elwa o gymryd rhan ynddo.

#### Pwy fydd yn elwa?

- Cymunedau Cymru
- Siaradwyr Cymraeg, Dysgwyr a'r Di-Gymraeg
- Plant a Pobl ifanc
- Oedolion o bob oed
- Mudiadau cymunedol

#### Beth fydd y gwahaniaeth?

I unigolion bydd y prosiect yn cynyddu:

- ffitrwydd a byw'n iach
- hyder a balchder
- defnydd o'r Gymraeg

Ceir disgrifiad mwy manwl ynglŷn â sut bydd y pobl uchod yn elwa o'r prosiect isod.

#### Cymunedau

Bydd y prosiect yn uno pobl o wahanol garfanau oddi fewn i gymdeithas drwy weithio gyda clybiau chwaraeon, Merched y Wawr, Clybiau Ffermwyr Ifanc, ysgolion, grwpiau Meithrin, elusennau a busnesau. Ceir amrywiaeth mawr yn natur y cymunedau oddi fewn i ardal y Ras, megis ardaloedd amaethyddol, trefi prifysgol, trefi marchnad, trefi twristiaeth ac ardaloedd amcan 1. Bydd y ras yn hybu cyd-weithio rhwng gwahanol fudiadau ac unigolion oddi fewn i gymunedau lleol drwy eu cael i

gyd-drefnu gweithgareddau. Bydd y ras hefyd, oherwydd natur pasio'r baton ymlaen, yn hybu cyd-weithio rhwng gwahanol gymunedau.

Er mwyn cynnal y Ras mae'n rhaid i ni ddenu cefnogaeth weithredol trawsdoriad o bobl yr ardal. Mae hynny'n golygu miloedd o bobl unai'n trefnu neu redeg (neu'r ddau).

Rydym yn anog mudiadau neu clybiau i drefnu gweithgareddau er mwyn codi'r £50 i noddi km (gyda nhw'n gadw unrhyw arian sy'n fwy na £50 wrth gwrs). Fel hyn gwelwn y Ras fel sbardun ar gyfer creu rhagor o ddigwyddiadau yn y cymunedau.

### **Unigolion**

Bydd unigolion yn elwa o gymryd rhan drwy wella ei ffitrwydd a'i hiechyd yn ogystal a chodi balchder ymhob unigolyn o'r iaith Gymraeg. Bwriedir i'r ras fod yn gatalydd naturiol i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymuned, a gan fod bwriad o gynnal y ras bob dwy flynedd, gobeithir y bydd cymunedau'n parhau i drefnu gweithgareddau yn y cyfnod hwn a felly bydd effaith hir dymor i gynnal y ras.

Nid oes unrhyw cyfyngiad ar pwy sydd yn gallu elwa o gymryd rhan yn nrhefnu neu redeg y ras, mae'r ras yn agored i bawb a'r holl weithgaredd wedi ei anelu i ddenu pobl o bob oed, o wahanol gefndiroedd a thynnu pawb at ei gilydd.

(Mae'n rhaid cadw at uchafswm o 350 o eiriau wrth ateb y cwestiwn hwn)

### **C30 Sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau ariannu'r Ymddiriedolaeth?**

Blaenoriaeth amlwg y mae'r prosiect yn ei chefnogi yw'r iaith Gymraeg sydd yn elfen bwysig o flaenoriaethau ariannu'r Ymddiriedolaeth. Fel mudiad sydd yn bodoli er budd y Gymraeg rydym yn cefnogi'n llwyr gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth bod Cymru'n wlad gyfoethog o ran diwylliant, ei hanes a'i haith. Rhaid cydnabod fod y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg yn wynebu heriau o fewn ein cymunedau, prif bwriad y Ras yw i hyrwyddo'r Gymraeg, a'r defnydd ohoni trwy feithrin balchder ynddi, trwy roi cyfleoedd i bobol wirfoddoli a thrwy ei dathlu. Bydd y ras yn torri rhwystrau cymdeithasol i lawr i unigolion drwy roi'r cyfle i pawb oddi fewn i gymunedau ardal y ras gymryd rhan, bydd hyn yn dod a pobl gyda sgiliau ieithyddol amrywiol yn y Gymraeg at ei gilydd ac yn y modd yma mae'r ras yn unigryw gan nad yw wedi ei anelu at Gymry Cymraeg yn unig ond yn hytrach yn agored i unrhyw un sydd eisiau dangos cefnogaeth i'r iaith.

Mae prosiect Ras yr Iaith yn cyd-fynd a llawer o flaenoriaethau ariannu eraill yr ymddiriedolaeth, un amlwg yw'r elfen chwaraeon, bydd y ras yn gwella ansawdd bywyd pobl drwy gyfleoedd i wella ffitrwydd a byw bywyd iach.

Bydd y ras yn mynd drwy rhai ardaloedd di-freintiedig sydd yn ardaloedd Amcan 1 Ewrop, megis Blaenau Ffestiniog, bydd y ras yn rhoi cyfle i bobl sydd yn gwynebu anfantais, megis pobl gydag anableddau neu bobl ifanc sydd yn "NEET" (ddim mewn addysg, hyfforddiant na gwaith) i godi hyder a hunan falchder a themlo'n rhan o'i cymuned. Bydd y ras yn rhoi cyfle i unigolion ffurfio cysylltiadau oddi fewn i'r gymuned leol drwy roi cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau, paratodau a rhedeg.

Mae'r ras yn rhoi'r cyfle i unigolion a chymunedau gymryd rheolaeth ar hyn sydd yn digwydd yn eu cymuned drwy roi'r cyfle iddynt drefnu a gwirfoddoli. Mae cynnal y ras yn gofyn am gyd-weithio gweithredol, nid prosiect

sydd yn cael ei drefnu i'r gymuned, ond prosiect sydd yn dibynnu ar y gymuned, a thrwy hyn mae balchder a hyder yn cael ei fagu.

(Mae'n rhaid cadw at uchafswm o 350 o eiriau wrth ateb y cwestiwn hwn)

### **C31 Amlinellwch pam y dylai'r Ymddiriedolaeth, yn eich barn chi, gynnig cymorth i'ch sefydliad.**

Credwn fod y prosiect yn cyd-fynd a nifer fawr o flaenoriaethau ariannu'r ymddiriedolaeth ac felly'n brosiect teilwng i dderbyn cymorth yr ymddiriedolaeth. Bydd y ras yn mynd i'r afael a rhwystrau cymdeithasol, megis y gwahaniaethau rhwng siaradwyr Cymraeg o wahanol safon a'r rheini sydd ddim yn siarad yr iaith, ac yn tynnu cymunedau at ei gilydd ac yn tynnu cymunedau gwahanol at ei gilydd.

Prif fwriad y cynllun yw i hybu'r iaith Gymraeg felly'n cyd-fynd gyda un o flaenoriaethau ariannu'r ymddiriedolaeth, gan gofio mae rhedeg, ac felly chwaraeon a byw bywyd iach, yw canolbwynt y prosiect, eto blaenoriaeth i'r ymddiriedolaeth.

Un o brif nodweddion cefnogi'r prosiect fyddai'r niferoedd fydd yn elwa o gefnogaeth yr ymddiriedolaeth, bydd cannoedd yn gwirfoddoli a miloedd o unigolion yn cymryd rhan mewn paratodau a chymryd rhan yn y ras, felly bydd y prosiect yn sicr yn rhoi gwerth am arian wrth feddwl sawl person fydd yn elwa os fydd y prosiect yn cael ei ariannu.

Nodwedd arall i fod yn ymwybodol ohoni yw nad yw'r ras yma ar gyfer un carfan o gymdeithas, yn hytrach bydd modd i bobl o bob oed, hil, rhywioldeb a gallu cofforol fod yn rhan o'r ras a'r gweithgareddau eraill fydd yn deillio o'i threfnu, a byddwn i'n sicrhau fod cyswllt yn cael ei wneud i hybu cyfranogaeth gan fudiadau ac unigolion sydd yn adlewyrchu trawsdoriad amrywiol y cymunedau.

Rheswm arall i gefnogi'r prosiect yw'r etifeddiaeth fydd yn deillio ohoni, bwriedir cynnal y ras bob dwy flynedd a bydd pwyllgorau oddi fewn i'r cymuendau lleol yn cael ei hannog i barhau gyda gwaith cymunedol rhwng cynnal y prosiect. Byddwn yn annog grwpiau cymunedol i gyfnewid syniadau a dysgu gan eu gilydd i gynnyddu effaith y cynllun.

Mae'r cynllun yn cynnig gwerth am arian da iawn, wrth i ni gyrraedd 4,300 o unigolion mewn blwyddyn, dim ond £1.74 y pen o arian yr Ymddiriedolaeth fydd yn cael ei wario ar ddod a gymaint o fudd i'r cymunedau. Hefyd mae cyfraniad yr Ymddiriedolaeth yn mynd i ryddhau gwerth dros £37,000 o wariant ychwanegol ar wneud gwahaniaeth ar lawr gwlad.

(Mae'n rhaid cadw at uchafswm o 350 o eiriau wrth ateb y cwestiwn hwn)

### **ADRAN TRI – Awdurdodi**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynnu bod pob cais wedi'i lofnodi gan ddau gynrychiolydd o'r sefydliad. Rhaid i un o'r rhai sy'n llofnodi fod yn Ymddiriedolwr(aig) neu gynrychioli'r uwch-reolwyr.

Yr ydym ni, sydd â'n llofnodion isod, yn cadarnhau bod pob gwybodaeth yn y cais hwn, y datganiad banc a'r cyfansoddiad, yn wir ac yn gywir. Yr ydym yn addo rhoi gwybod i Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm yn syth am unrhyw newid yn yr amgylchiadau.

### **PWYSIG: Gall rhoi gwybodaeth gamarweiniol arwain at eich erlyn.**

Enw: Emily Cole

Swydd yn y Sefydliad: Cydlynnydd Cenedlaethol

Cyfeiriad: Y Sgwâr, Llanrwst, LL26 0LG

Rhif Ffôn: 01443 493715

Llofnod: 

Enw: Meirion Davies

Swydd yn y Sefydliad: Cadeirydd

Cyfeiriad: Y Sgwâr, Llanrwst, LL26 0LG

Rhif Ffôn: 01492 642357

Llofnod: 

**NODYN I BOB YMGEISYDD:**

**Gwnewch yn siŵr y caiff y cais hwn, ar ôl ei lenwi, ei gyflwyno i Swyddfa'r Ymddiriedolaeth ynghyd â chopi o gyfansoddiad eich sefydliad a'i ddatganiad banc diweddaraf. Darllenwch y canllawiau'n fanwl er mwyn ymgyswrtio â'r broses ymgyswrtio a'r telerau a'r amodau.**

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm yn gofyn bod yr holl geisiadau yn cael eu cyflwyno drwy e-bost mewn Dogfen Word â dogfennau ategol ar ffurf PDF. Ym mhob achos, rhaid i geisiadau gael eu derbyn erbyn 12 hanner dydd ar ddiwrnod y dyddiad cau. Bydd ceisiadau drwy'r post yn dal i gael ei dderbyn. Dylai ceisiadau gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol eraill na ffurflen gais wedi'i llenwi, Copi o ddogfennau llywodraethu a chopi o'r Datganiad Banc diweddar. Gofynnir i ymgeiswyr sicrhau bod y gwerth priodol o stampiau wedi ei sicrhau ar y cais ar ôl postio

**Rhif Ffôn Swyddfa'r Ymddiriedolaeth: 02920022143 neu E-bost: [msct@foxseconsultancy.co.uk](mailto:msct@foxseconsultancy.co.uk)**

**Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm  
Trust Administration  
Millennium Stadium Trust  
Suite 1  
4 Bessemer Road  
Cardiff  
CF11 8BA  
[www.millenniumstadiumtrust.co.uk](http://www.millenniumstadiumtrust.co.uk)**